

## **CYNGOR SIR CEREDIGION**

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd</b>
<b>Dyddiad:</b>	<b>24 Mawrth 2023</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Adroddiad mewn perthynas â'r Arolwg Ymadael o Aelodau'n Rhoi'r Gorau Iddi</b>
<b>Pwrpas yr adroddiad:</b>	<b>Ystyried canfyddiadau'r Arolwg Ymadael o Aelodau'n Rhoi'r Gorau Iddi</b>

### **Cyflwyniad**

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gweithio gyda Data Cymru i gynnal arolwg ymadael o gynghorwyr sy'n penderfynu rhoi'r gorau iddi yn wirfoddol mewn etholiadau lleol. Cynhaliwyd arolygon ym mis Mai 2012, 2017 a 2022. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chynghorau yn defnyddio'r data a gasglwyd i ddeall demograffeg y cynghorwyr hyn, eu profiadau tra yn y swydd a'u rhesymau dros roi'r gorau iddi. Defnyddir y wybodaeth hon hefyd i asesu a gwella'r cymorth a'r cyfleoedd i ddatblygu a roddir i gynghorwyr yn lleol ac yn genedlaethol.

Isod mae detholiadau o wybodaeth yn yr adroddiad yn ymwneud â Chynghorwyr o Gyngor Sir Ceredigion a roddodd y gorau iddi.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn dweud bod nifer y Cynghorwyr a oedd yn rhoi'r gorau iddi mewn etholiadau yn 2022 ledled Cymru yn cyfateb i 321 (26%). Yng Ngheredigion, rhoddodd 11 Cynghorydd y gorau iddi (26% yn seiliedig ar 42 o seddi Cyngor yn ystod y weinyddiaeth flaenorol) sy'n dangos bod Ceredigion yn unol â chyfartaledd Cymru. Yng Ngheredigion, nododd 80% mai eu rheswm dros roi'r gorau iddi oedd oherwydd ymddeoliad, 10% oherwydd symud i ffwrdd, a 10% oherwydd rhesymau eraill. Ledled Cymru, ymddeoliad oedd y prif resymau dros roi'r gorau iddi, ac yna pwysau amser, ac yna Newidiadau i ward etholiadol.

Yr ymateb moddol ar gyfer nifer y blynyddoedd a dreuliwyd yn rôl Cynghorydd yw 21-25 mlynedd, sy'n cyfateb i 4-5 tymor yn y swydd. Ystod oedran moddol y rhai a roddodd y gorau iddi oedd 75-84 oed.

Roedd ymateb y cymedr rhifyddol i nifer cyfartalog yr oriau'r wythnos a dreuliwyd yn y rôl, gan gynnwys gwaith achos cymunedol, yn cyfateb i 23.4 awr yr wythnos, wedi'i ddadansoddi fel a ganlyn:

9.7 awr yr wythnos yng nghyfarfodydd y Cyngor ac wrth baratoi ar gyfer cyfarfodydd;

6.7 awr yr wythnos yn ymwneud â gwaith yn y Ward a gwaith achos;

5.1 awr yr wythnos yn ymwneud â chyrrff allanol; a

7.8 awr yr wythnos wedi'u rhestru fel arall.

Ledled Cymru, dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr mai nifer cyfartalog yr oriau a dreuliwyd yn y rôl oedd 17-30 awr.

Roedd 66% o'r farn bod y gydnabyddiaeth ariannol a gafwyd yn ddigonol, tra bod 33% o'r farn nad oedd. Mae hyn yn adlewyrchu ymatebion ledled Cymru sy'n nodi bod 60% o'r farn bod y gydnabyddiaeth ariannol yn ddigonol.

Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr fod cymorth i Gynghorwyr o ran cyfarpar TGCh / neu ffôn, a chymorth a hyfforddiant, cymorth i Gynghorwyr o ran cynefino, hyfforddiant, arweiniad cyffredinol a chymorth yn dda iawn neu'n dda, tra bod 70% o'r farn bod cyfleustra amseroedd cyfarfodydd yn dda neu'n dda iawn, tra bod 30% yn meddwl nad oedd yn dda nac yn wael. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ymatebion ledled Cymru ond nid oedd cymorth gan yr awdurdod lleol ar gyfer gwaith achos / gwaith yn y ward wedi llwyddo cystal gyda 20% yn nodi ei fod yn dda iawn, 20% yn nodi ei fod yn dda, 50% yn nodi nad oedd yn dda nac yn wael a 10% yn nodi ei fod yn wael iawn sydd ychydig yn is nag ymatebion ledled Cymru.

Nododd pob un o'r ymatebwyr eu bod wedi manteisio ar y cyfnod cynefino a'r hyfforddiant a gynigiwyd, tra bod 90% o'r farn bod y cyfnod cynefino a'r hyfforddiant wedi'u gwneud yn fwy effeithiol fel Cynghorydd. Roedd un yn ansicr.

Nododd 10% eu bod mewn cyflogaeth llawn amser, roedd 60% yn hunangyflogedig ac roedd 30% wedi ymddeol. Dywedodd pawb fod eu cyflogwyr yn gefnogol iawn. Nododd 90% o'r ymatebwyr eu bod yn ymwybodol y gallent hawlio ad-daliad am gyfrifoldebau gofalu, ond ni chyflwynodd dim un hawliadau yn ystod eu cyfnod yn dal y swydd.

Nododd 70% y byddent yn argymhell bod yn Gynghorydd i eraill tra bod 30% yn ansicr.

**Argymhelliad:**

Nodi canfyddiadau'r Arolwg Ymadael o Gynghorwyr yn Rhoi'r Gorau Iddi ym mis Mai 2022

**Atodiadau:**

Dim

**Dogfennau cefndir:**

Arolwg Ymadael o Gynghorwyr yn Rhoi'r Gorau Iddi ym mis Mai 2022  
<https://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&mid=665&fileid=3729>

**Enw:**

Lowri Edwards

**Teitl y Swydd:**

Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Gwasanaethau Democraidaidd

**Dyddiad:**

01.03.2023